Wales Centre for Public Policy
Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Briff polisi
Mawrth 2021

# Gwella Cydraddoldeb Hiliol yng Nghymru

## Cyflwyniad

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i gyhoeddi Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol wedi'i gynllunio i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau hiliol ac ethnig strwythurol yng Nghymru. Gofynnodd y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip i Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru gynnal adolygiadau tystiolaeth i lywio datblygiad y Cynllun Gweithredu ar draws chwe maes polisi allweddol, a ddewiswyd gan mai'r rhain yn ôl y tebyg sy'n cael yr effaith fwyaf ar anghydraddoldeb hiliol: arweinyddiaeth a chynrychiolaeth, tai a llety, addysg, iechyd a gofal cymdeithasol, cyflogaeth ac incwm a throsedd a chyfiawnder.


Amlygodd ein hymchwil nifer o feysydd allweddol ar gyfer gweithredu ar draws meysydd polisi. Bydd y rhain yn bwysig wrth ddylunio a gweithredu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol. Mae'r gweithredoedd hyn yn aml ar waith ar draws y system gyfan, a bydd llwyddiant wrth fynd i'r afael â'r themâu trosfwaol a nodwyd gennym hefyd yn cyfrannu at lwyddiant wrth weithredu argymhellion sy'n benodol i faes polisi.

Mae'r briff hwn yn crynhoi'r egwyddorion a ddefnyddiwyd gennym wrth ymchwilio i'n hadolygiadau, ynghyd â'n canfyddiadau ar draws y pedwar maes allweddol a'r egwyddorion arweiniol ar gyfer gweithredu.

## Cysyniadau allweddol

Wrth ymchwilio ac ysgrifennu ein hadolygiadau roeddem yn ystyriol o'r cysyniadau canlynol, yr ydym yn argymell eu bod yn cael eu hystyried wrth ddatblygu'r Cynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol.

- Deallwn **'hil' ac 'ethnigrwydd' fel dyfeisiau cymdeithasol** yn hytrach na phethau sy'n cynrychioli gwahaniaethau biolegol rhwng grwpiau o bobl.
- Rydym wedi ceisio cymryd safbwynt **croestoriadol** lle bo hynny'n bosibl, gan ystyried agweddau eraill ar hunaniaethau



cymdeithasol pobl e.e. rhywedd, tueddfryd rhywiol, anabledd.

- Rydym hefyd wedi ceisio defnyddio **dull wedi'i ddadgyfuno,** lle rydym yn archwilio gwahaniaethau ymhlith pobl o leiafrifoedd ethnig, yn ogystal â phoblogaeth y mwyafrif Gwyn.
- Rydym yn **gwneud ymdrech i osgoi defnyddio'r acronymau 'BAME' neu 'BME'**, gan gydnabod bod y rhain yn dermau a ddadleuir ac a all arwain at stigmateiddio, dadbersonoli ac 'aralloli'. Lle nad yw'n bosibl cyfeirio at grwpiau penodol, rydym yn defnyddio'r term (amherffaith) 'Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig'.
- Er bod polisi'r llywodraeth yn bwysig, rydym hefyd yn cydnabod y bydd gweithredu effeithiol yn gofyn am ymyriadau **'o'r brig i lawr' ac 'o'r gwaelod i fyny'** ac a all feithrin newid cyffredinol mewn systemau.

## Casglu, adrodd a dadgyfuno data

Canfu ein chwe adolygiad tystiolaeth yn gyson fod argaeledd ac ansawdd data'n ffactorau cyfyngol wrth ddeall maint, natur ac achosion anghyfartalwch hiliol, ac wrth werthuso a dylunio polisïau effeithiol i'w wrthbwyso.

Mae hefyd yn bwysig cael data ar y gwahaniaethau sy'n bodoli o fewn, yn ogystal â rhwng, gwahanol grwpiau ethnig. Mae dadgyfuno yn caniatáu i ymatebion polisi ymateb yn well i'r angen trwy roi darlun mwy gronynnog o brofiadau ac anghenion pob grŵp ac is-grŵp.

Gall dadgyfuno data fod yn heriol i'w gyflawni. Yng Nghymru, mae cyfran y preswylwyr o gefndir Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn parhau i fod yn eithaf isel ar tua 5.5%. O ganlyniad, i gasglu data o ansawdd digonol i allu ei ddadgyfuno heb achosi problemau o ran adnabod unigolion, bydd angen gorsamplu, yn enwedig y tu allan i ddinasoedd arfordirol mwy amrywiol De Cymru. Fodd bynnag, o ystyried cost gorsamplu, bydd yn bwysig blaenoriaethu dangosyddion lle mae angen gwell data, a bydd angen dulliau eraill hefyd, fel gwella cyfraddau ymateb i'r arolwg. Bydd hyn yn dibynnu ar adeiladu ymddiriedaeth gyda chymunedau lleiafrifol, er enghraifft trwy ymgysylltu o'r newydd ac egluro'n glir bwrpas ceisio'r data hwn ar y pwynt casglu.

Bydd angen i gyrff cyhoeddus weithio hefyd i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw fylchau yn y data sydd ganddynt fel eu bod yn gallu mynd i'r afael â nhw. Yn olaf, bydd safonau data cyson ar draws sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus yn caniatáu cymaroldeb ar draws ystod o fesurau.

## Arweinyddiaeth a chynrychiolaeth

Mae ymchwil yn dangos bod ymyriadau i hyrwyddo cydraddoldeb hiliol ar eu mwyaf llwyddiannus pan fydd arweinwyr sefydliadol ar bob lefel wedi ymrwymo i'w cyflawni.

Mae sicrhau 'ymrwymiad' gan arweinwyr yn gofyn am ddull cymysg sy'n cyfuno cymhellion a chydnabyddiaeth â mecanweithiau atebolrwydd



megis cynnwys targedau perthnasol mewn rheoli perfformiad ac arfarniadau.

Mae mynd i'r afael ag anghyfartalwch hefyd yn gofyn am fynd i'r afael â thangynrychiolaeth pobl o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig ar lefelau arwain.

Gall sefydliadau ddefnyddio manylebau swyddi, hysbysebion ac arferion recriwtio, gan gynnwys ceisiadau dienw a phaneli cyfweld amrywiol, i helpu i gynyddu cynrychiolaeth pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig.

Mae arferion dilyniant hefyd yn bwysig oherwydd gallant helpu i greu cronfa gref o arweinwyr mwy amrywiol yn y dyfodol, sydd hefyd yn helpu parhad sefydliadol a chynllunio olyniaeth. Gallai cyfleoedd mentora a/neu fentora gwrthol, ynghyd â chyfleoedd datblygu a secondiadau, helpu i gynyddu cyfran yr arweinwyr Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn y dyfodol.

## Newid diwylliannau sefydliadol

Bydd angen newidiadau ehangach mewn diwylliannau sefydliadol hefyd i sicrhau bod ymyriadau i fynd i'r afael ag anghyfartalwch hiliol yn llwyddo. Mae arbenigwyr yn nodweddu hyn fel dull sy'n gofyn am newid o ddull 'di-hiliol' lle nad yw sefydliadau'n cyfrannu at anghydraddoldebau hiliol i ddull 'gwrth-hiliol' lle mae'r anghydraddoldebau hyn yn cael eu herio a'u datrys yn weithredol.

Mae newid diwylliant sefydliadol yn broses hirdymor ac mae angen ei amgyffred felly. Bydd rhoi targedau hirdymor ar waith gydag ymrwymiad gweladwy gan arweinwyr yn bwysig. Felly hefyd fydd cynnwys mecanweithiau atebolrwydd a thryloywder, fel adrodd ar gynnydd yn rheolaidd.

Mae newid diwylliannol yn mynd y tu hwnt i hyfforddiant a datblygiad, er bod y rhain yn aml yn feysydd o ffocws a sylw. Prin yw'r dystiolaeth bod mathau poblogaidd o hyfforddiant gwrth-hiliaeth (megis hyfforddiant braint pobl wyn neu ragfarn anymwybodol) yn cyflawni eu nodau ac mae rhywfaint o dystiolaeth y gallant fod yn wrthgynhyrchiol o dan rai amgylchiadau, er bod angen ymchwil pellach.

Gall gweithredu'r rhaglenni hyn a rhai tebyg yn ofalus helpu i osgoi'r risgiau hyn a chael effaith fwy cadarnhaol. Gall cynyddu cyswllt rhwng grwpiau a hwyluso dulliau empathig gyfrannu at newid diwylliant llwyddiannus mewn sefydliadau.

Yn fwy eang, ystyrir bod penderfyniadau cyfranogol a chyfleoedd i staff o leiafrifoedd ethnig rannu eu pryderon a chael 'llais' y gwrandewir arno yn ddefnyddiol. Gallai mabwysiadu arddulliau arwain mwy cynhwysol a dosranedig hefyd hyrwyddo amgylcheddau gwaith mwy agored a chadarnhaol.

## Ymgysylltu ac allgymorth

Bydd gwahanol feysydd polisi a phwyntiau yn y broses bolisi yn elwa o wahanol lefelau o gyfranogiad ac ymgysylltiad cymunedol, ond gall cynnwys pobl a grwpiau o gefndiroedd Du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig wrth wneud penderfyniadau helpu i gynyddu effeithiolrwydd ymyriadau yn ogystal â hyrwyddo cyfranogiad ymhlith rhanddeiliaid.

Mae cyd-gynhyrchu a chyd-ddylunio, lle mae rhanddeiliaid ac unigolion yn ymwneud yn uniongyrchol â chynllunio, dylunio a gweithredu ymyriadau, yn cynnig ffordd i lunwyr polisi dynnu ar arbenigedd presennol. Mewn meysydd eraill, gallai ehangu'r prosesau ymgynghori presennol hefyd helpu i egluro'r angen am ymyriadau a'r ffordd orau o'u gweithredu.

Gall cymysgedd o brosesau 'o'r brig i lawr' ac 'o'r gwaelod i fyny' sy'n cydnabod yr angen am arbenigedd technegol a rôl strategol y llywodraeth, yn ogystal â chreu'r cyfle am hyblygrwydd ac adborth lleol, gynnig fframwaith ymgysylltu da y gellir adeiladu arno lle bo hynny'n bosibl.

Mae ymgysylltu hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr gwasanaeth gydnabod methiannau i gyrraedd rhai cymunedau a goresgyn 'diffyg ymddiriedaeth' a all atal ymgysylltu. Bydd didwylledd ac ymrwymiad gwirioneddol i newid

ar ran darparwyr gwasanaeth yn bwysig yn y sefyllfaoedd hyn.

## Gweithredu

Mae gweithredu'n arbennig o bwysig o ystyried bod llawer o faterion ac atebion posibl sy'n gysylltiedig ag anghydraddoldeb hiliol wedi bod yn hysbys ers cryn amser, ond nid oes digon o gynnydd wedi'i wneud mewn gwirionedd.

Mae ymchwil gan y Sefydliad Gwaddol Addysgol yn tynnu sylw at bwysigrwydd edrych ar weithredu fel proses, yn hytrach na digwyddiad. Ymhlith pethau eraill, mae hyn yn golygu cynllunio ac ymchwilio gofalus (gan gynnwys dewis pa feysydd ac ymyriadau i'w blaenoriaethu) ac adeiladu cyfleoedd i werthuso a, lle bo angen, newid neu derfynu ymyriadau.

Gall systemau cymhleth ymateb mewn ffyrdd anrhagweladwy a gwrth-reddfol weithiau i ymyriadau, felly bydd proses weithredu hyblyg ac atblygol, gan gynnwys gwerthuso, yn helpu i wella'r modd y darperir gwasanaethau.

## Casgliad

Mae'r themâu rheolaidd a nodwyd gennym yn yr adroddiad hwn yn torri ar draws y chwe maes polisi a astudiwyd gennym ac yn tynnu sylw at bwysigrwydd dull integredig, strategol o ymdrin â Chynllun Gweithredu Cydraddoldeb Hiliol Llywodraeth Cymru.

Bydd casglu data gwell, arweinyddiaeth gynhwysol a chynrychioliadol, newid diwylliant sefydliadol a gwell ymgysylltiad ac allgymorth cymunedol i gyd yn chwarae rhan bwysig wrth sicrhau bod ymyriadau polisi-benodol yn llwyddo, yn ogystal â bod yn gydrannau pwysig o weithredu llwyddiannus yn fwy cyffredinol. A bydd agwedd addasadwy, hirdymor a strategol tuag at weithredu yn helpu i sicrhau bod ymyriadau'n cyfrannu at welliannau ym mywydau pobl Ddu, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yng Nghymru.

## Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad llawn gweler Price, J., Roberts, M. a Hill-Dixon, A. **Gwella cydraddoldeb hiliol yng Nghymru: Adroddiad cryno**. Caerdydd: Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

## Ynglŷn â Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio gydag arbenigwyr polisi blaenllaw er mwyn darparu tystiolaeth o ansawdd uchel a chyngor annibynnol i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru sydd yn eu helpu i wella penderfyniadau polisi a deilliannau.

Mae'r Ganolfan, sydd wedi ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol a Llywodraeth Cymru, wedi ei lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac mae'n rhan o Rwydwaith Beth Sy'n Gweithio y DU.

I gael mwy o wybodaeth, cysylltwch â:

**Dr Jack Price**

+44 (0)29 2087 5345

jack.price@wcpp.org.uk